

## Adroddiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i'r

### Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

#### Pwrpas yr Adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) mewn perthynas â'r canlynol:

- cynnydd yn erbyn argymhelliad PAC ar gyfer y Bwrdd Iechyd a gynhwyswyd yn 'Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr : Gwersi a Ddysgwyd' Mai 2019 (argymhelliad 1)
- cynnydd yn erbyn y gofynion a osodwyd yn y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu
- camau gweithredu sydd ar y gweill i sicrhau gwelliant yn unol ag adroddiadau allanol diweddar, gan gynnwys llawdriniaeth fasgwlaidd a gwasanaethau iechyd meddwl

#### **Diweddariad ar yr argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd yn adroddiad Mai 2019 "Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr : Gwersi a Ddysgwyd"**

Gwnaeth yr Adroddiad un argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd, fel y ganlyn -

*Argymhelliad 1. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo ar gyfer gweithredu gweddnewid ac er bod y Bwrdd wedi penodi Cyfarwyddwr Gweddnewid, rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd ystyried dod ag arbenigedd gweddnewid allanol ychwanegol i mewn i gynorthwyo â hyn.*


Yn Adroddiad Mai 2019, nodwyd bod Cadeirydd y Bwrdd Iechyd wedi comisiynu adolygiad allanol o gynllun ariannol y Bwrdd a'i gapasiti i sicrhau arbedion digonol i sicrhau cynnydd tuag at gynllun ariannol cytbwys. Cadarnhaodd y gwaith hwn y diffyg ariannol sylfaenol a wynebwr gan y Bwrdd Iechyd a nododd yr angen am arbedion sy'n rhyddhau arian o £35m i'w cyflawni yn 2019/20 er mwyn cyflawni'r diffyg cyfanswm rheolaeth o £25m a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, rhoddodd y Bwrdd Iechyd strwythur diwygiedig ar waith yn gyflym er mwyn cyflawni adferiad ariannol. Arweiniwyd hyn gan Gyfarwyddwr Adfer allanol profiadol. Buddsoddodd y Bwrdd Iechyd mewn capasiti a gallu ychwanegol gan Swyddfa Rheoli'r Rhaglen i lywio'r rhaglen arbedion a chefnogi llywodraethu ariannol gwell.

Sefydlwyd Rhaglen Adfer Ariannol gynhwysfawr ym mis Gorffennaf 2019. Goruchwyliwyd hyn gan Grŵp Adfer Ariannol, a gadeirwyd gan y Prif Weithredwr, â mewnbwn gan Gyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adfer. Roedd y grŵp hwn hefyd wedi elwa ar arbenigedd Cynghorydd Ariannol Annibynnol i'r Bwrdd. Goruchwyliodd y Grŵp raglen o weithgareddau wythnosol a oedd yn ceisio cyfleoedd

newydd am arbedion, yn sicrhau cyflawniad y cynlluniau hynny a nodwyd, ac yn herio lle'r oedd pryderon ynghylch perfformiad, gan sicrhau bod y camau adferol ar waith. Ar draws y sefydliad, roedd Uwch Adrannau'n cymryd rhan mewn adolygiad bob pythefnos o'r modd y maent wedi nodi a chyflawni arbedion. Sefydlwyd cyfres o Grwpiau Gwella a arweiniwyd gan Weithredwyr i yrru mentrau arbedion ar draws y Bwrdd iechyd yn eu blaen, gydag adolygiadau tebyg o gynnydd bob pythefnos.

Gwelwyd effaith gyfunol y cymorth allanol a gomisiynwyd a phenodiad y Cyfarwyddwr Adfer yn nhwf y rhaglen arbedion o fis 4 ymlaen, fel y dangosir isod:



Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd y rhaglen arbedion wedi creu arbedion sy'n rhyddhau arian o £34.9m, yn unol â'i tharged, gydag arbedion cylchol o £24.6m. Yn ogystal â chreu arbedion yn ystod y flwyddyn, roedd y rhaglen hefyd yn adeiladu cynllun dros y cyfnod o dair blynedd i gefnogi'r ymdrech i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar arbedion, roedd yr adolygiad allanol hefyd yn cynnwys adolygiad o linell sylfaen ariannol y Bwrdd a rheolaethau gwariant allweddol a oedd yn angenrheidiol i gyflawni llywodraethu ariannol cadarn. Roedd yr adolygiad yn cynnwys 54 o argymhellion a gwnaed cynnydd da yn 2019/20 o ran gweithredu, fodd bynnag roedd y broses o'u cwblhau'n llawn wedi'i pheryglu gan ddechrau'r pandemig COVID-19 ym mis Chwefror 2020, a ddargyfeiriodd adnoddau i ffrydiau gwaith eraill â blaenoriaeth. Mae crynodeb o weithrediad yr argymhellion ym mis Mehefin 2020 i'w weld isod:

Cyfeiriad Adroddiad	Nifer yr Argymhellion	Argymhellion wedi'u cyflawni	Argymhellion i'w cyflawni	% a gwblhawyd
Llinell Sylfaen Ariannol	32	26	6	81
Gafael a Rheolaeth- Tâl	16	13	3	81
Gafael a Rheolaeth- Di-Dâl	6	6	0	100
Cyfanswm	54	45	9	83

Cafodd gweithredu'r Rhaglen Adfer Ariannol a'r rheolaethau gwell a oedd yn ei chefnogi effaith sylweddol ar draws y Bwrdd Iechyd. Gwellodd perfformiad ariannol y Bwrdd yn 2019/20, gyda'r diffyg yn gostwng £1.6m o'r lefel a welwyd yn 2018/19, fel y dangosir isod:

Blwyddyn Ariannol	Diffyg £m	Diffyg fel % o'r Dyranriad Adnoddau Refeniw	Arbedion a gyflawnwyd £m
2014/2015	£26.60	2.10%	34.90
2015/2016	£19.50	1.50%	34.50
2016/2017	£29.80	2.20%	33.50
2017/2018	£39.00	2.70%	41.70
2018/2019	£41.28	2.77%	38.35
2019/2020	£38.70	2.39%	34.93
2020/2021	0	0.00%	18.39
2021/2022 (Rhagolwg M9)	0	0.00%	17.95

Ers dechrau 2020, mae effaith y pandemig ar weithgareddau a blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn sylweddol iawn. Yn unol â Byrddau Iechyd eraill, mae'r ffocws ar arbedion wedi lleihau, ond sicrhawyd arbedion o £18.4m yn 2020/21 a'r arbedion a ragwelir ar gyfer 2021/22 yw £18m. Yn 2020/21 cyflawnodd y Bwrdd Iechyd sefyllfa ariannol gytbwys ar ôl derbyn adnoddau cymorth strategol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhagweld balans ar gyfer 2021/22.

Mae gwelliannau mewn rheolaeth ariannol gyffredinol wedi cael effaith gynyddol yn y blynyddoedd diwethaf. Gwnaeth Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2021 (Cam 2) y sylwadau a ganlyn sy'n adlewyrchu sefyllfa sy'n gwella:

“Mae adroddiadau cyllid yn darparu gwybodaeth ddigonol ac amserol am y sefyllfa ariannol, perfformiad ariannol, arbedion cost a chynnydd yn erbyn y rhaglen gyfalaf. Edrychir yn ddwfn i feysydd gwariant penodol yn gyfnodol er mwyn cefnogi dealltwriaeth a chraffu. Lle mae contractau a chytundebau newydd neu ddiwygiedig sydd â goblygiadau ariannol i'r Bwrdd Iechyd, mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael ei hysbysu'n briodol ac yn darparu her briodol.”

“Dros y chwe mis diwethaf, rydym yn gweld pwyslais cynyddol ar werth, elw o fuddsoddiad ac effeithlonrwydd ar lefelau uwch o fewn y sefydliad. Mae hyn yn dod yn fwy amlwg yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, yn enwedig mewn achosion busnes newydd ac mae'n ddatblygiad i'w groesawu.”

Mae'r sylwadau uchod yn adlewyrchu amgylchedd sy'n datblygu ar gyfer rheolaeth a llywodraethu ariannol effeithiol o fewn y Bwrdd Iechyd, ond mae'n amlwg bod angen gweithredu dull mwy trawsnewidiol o gyflawni arbedion, wedi'i adeiladu ar ffocws cynyddol ar effeithlonrwydd a gwerth.

Wrth i'r Bwrdd lechyd baratoi i ddychwelyd i amgylchedd gweithredu mwy sefydlog yn 2022/23, mae'n hollbwysig bod y trylwyrdd a'r ddisgyblaeth sicrhawyd yn achos y broses adfer ariannol yn cael eu cynnal, er bod hynny yng nghyd-destun dull ehangach o wella ansawdd a thrawsnewid. Bydd rhoi sylw i weithrediad effeithiol rheolaethau allweddol o ran gwariant ar gyflogau a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, wedi'i ategu gan drefniadau atebolrwydd cryf a her mewn perthynas â chyflawni perfformiad, yn allweddol i sicrhau llwyddiant. Bydd hyn yn cael ei ymgorffori ym model gweithredu newydd y Bwrdd lechyd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Mae gwaith y Bwrdd lechyd wrth ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ar gyfer 2022/2025 yn adlewyrchu'r dull hwn. Gan gydnabod arsylwadau blaenorol a wnaed mewn perthynas â chapasiti i gyflawni, mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu Uned Trawsnewid a Gwella, a fydd yn ychwanegu mwy o gapasiti a gallu. Trwy gyflawni rhaglenni trawsnewid, bydd ffocws ar sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion, ac ar yr un pryd, cynhyrchu buddion ariannol diriaethol a chynaliadwy.

Yn ogystal â datblygu'r Uned Trawsnewid a Gwella, mae Tîm Gwella Cyllid yn cael ei sefydlu drwy ailstrwythuro ac ailddyrranu adnoddau o'r timau presennol. Bydd hyn yn darparu mwy o gapasiti a gallu o fewn y gyfarwyddiaeth gyllid i gefnogi'r rhaglen arbedion, gyda ffocws ar sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion cost cynaliadwy a chylchol ar draws y Bwrdd lechyd.

Mae'r IMTP drafft yn cynnwys gofyniad i gyflawni arbedion gwerth £35m ym mhob un o'r tair blynedd nesaf, sef cyfanswm o £105m dros y cyfnod cynllunio. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad y Bwrdd lechyd o ddata meincnodi a data cyfeirio allanol arall. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y cyfle i gyflawni gwelliannau a allai sicrhau buddion ariannol yn amrywio o £70m i £114m, dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r ystod o werthoedd yn seiliedig ar gyfleoedd sydd wedi'u hasesu'n flaenorol fel rhai â lefel hyder sy'n amrywio o uchel i ganolig yn ansawdd y meincnodi. Crynhoir y cyfleoedd yn y tabl isod -

Transformation Area	Low Opportunity £m	High Opportunity £m
Planned Care	19.8	36.7
Unscheduled Care	11.8	18.7
Mental Health	3.8	5.5
Other *	35.3	53.3
Opportunity Range	70.7	114.2

\*Sylwer – Mae eraill yn cynnwys rheoli meddyginiaethau gofal sylfaenol, gofal iechyd parhaus a'r gweithlu

Bydd dadansoddiad pellach yn cael ei ymgorffori wrth i'r rhaglen ddatblygu, gan wneud y defnydd gorau o wybodaeth meincnodi cenedlaethol a chymheiriaid i

gyfeirio ffocws i feysydd lle mae dangosyddion yn dangos gwasanaethau lleol fel allanolynnau perfformiad. Bydd hyn yn arwain at nodi meysydd ar gyfer newid llwybr posibl, gwella gwasanaethau ar raddfa fawr a gwaith gwerth a fydd yn cael ei ddatblygu gyda chymorth gan y Tîm Trawsnewid.

## **Cynnydd yn erbyn y gofynion a bennwyd yn y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu**

Ym mis Tachwedd 2020, yn dilyn cyngor ac argymhelliad gan gyfarfod tridarn GIG Cymru, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, symudodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Iechyd i lawr o 'Fesurau Arbennig' i 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu'. Mae'r Bwrdd Iechyd yn destun Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn y pedwar maes canlynol:

- Rheoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl (oedolion a phlant)
- Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
- Arweinyddiaeth (gan gynnwys Llywodraethu, Trawsnewid a Diwylliant)
- Ymgysylltu

Mae'r Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn defnyddio dull matrices aeddfedrwydd i ddangos cynnydd yn y meysydd sy'n peri pryder. Mae matrices aeddfedrwydd ar ffurf tabl ac mae'n disgrifio elfennau allweddol o arfer da ar hyd yr echelin y, a graddiadau 'aeddfedrwydd' ar hyd yr echelin x; cânt eu defnyddio i ddarparu iaith gyson a chyffredin ar gyfer rhaglen drawsnewid ac i amlygu 'beth yn union yw da' mewn map trywydd gwella syml sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r dull matrices aeddfedrwydd yn dibynnu ar broses hunanasesu effeithiol sy'n herio tystiolaeth o gynnydd yn drylwyr. O fewn y Bwrdd Iechyd, mae 'model sicrwydd tair llinell amddiffyn' wedi'i fabwysiadu i gefnogi hunanasesu a gwneud penderfyniadau ynghylch cynnydd. Y llinell amddiffyn gyntaf yw'r tîm gweithredol yn cyflwyno'r dystiolaeth i'r Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol am y parth (Cyfarwyddwr Gweithredol). Mae'r ail linell amddiffyn yn cynnwys gwirio a herio gan ein Tîm Ymyrraeth wedi'i Thargedu canolog, cyn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Tystiolaeth neu'r Grŵp Canlyniadau fel y drydedd linell, sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd.


Rôl y Grŵp Tystiolaeth yw rhoi sicrwydd ar sail tystiolaeth bod camau gweithredu o fewn y matricesau wedi'u cyflawni; rôl y Grŵp Canlyniadau yw rhoi sicrwydd ar sail tystiolaeth bod effaith y camau gweithredu fel y'i bwriedir er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol a ddiffinnir yn y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

Caiff y Grwpiau Tystiolaeth a Chanlyniadau eu cadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol sy'n annibynnol (o'r broses) ac mae ganddynt gynrychiolaeth o blith staff ar draws y Bwrdd Iechyd ynghyd â chynrychiolwyr allanol, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned.

Bydd y Grŵp Llywio Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn gwirio ac yn cymeradwyo'r dystiolaeth cyn cynnig argymhellion i'r Bwrdd. Yn ychwanegol, mae pedwar Aelod













Annibynnol wedi'u nodi fel Aelodau Cyswllt, i weithredu fel “cyfeillion beirniadol” yn ystod y broses wirio a herio, a byddant yn derbyn diweddariadau misol ac yn cyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad at y broses casglu tystiolaeth ac asesu. Mae'r Bwrdd hefyd wedi creu'r amser a'r cyfle mewn gweithdai i drafod a herio'r dystiolaeth yn fanwl cyn i'r hunanasesiad ffurfiol gael ei ystyried yn gyhoeddus gan y Bwrdd.

Crynoir y broses hon ar gyfer darparu tystiolaeth a sicrwydd i'r Bwrdd yn y diagram isod:



Mae fframwaith gwneud penderfyniadau yn cael ei ddatblygu, er mwyn sicrhau cysondeb wrth lunio barn ar effeithiolrwydd camau gweithredu a gaiff eu cwblhau wrth i ni symud drwy'r matricsau.

Mae'r Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu yn ceisio tystiolaeth o welliannau dros amser, fel yr adlewyrchir yn y cynnydd drwy'r matricsau aeddfedrwydd. Cynhaliodd y Bwrdd lechyd asesiad sylfaenol ym mis Mai 2021 ac yna cyhoeddodd ei asesiad cyntaf o gynnydd ym mis Tachwedd 2021. Cyflwynwyd yr asesuadau hyn yn llawn i gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd lechyd a dangosir y canlyniadau yn y diagram isod, ynghyd â'r targedau a bennwyd ar gyfer yr asesiad nesaf ym mis Mai 2022:

Progress Levels	0 - No Progress	1 - Basic Level Principle accepted and commitment to action	2 - Early Progress Early progress in development	3 - Results Initial achievements	4 - Maturity Results consistently achieved	5 - Exemplar Others learning from our consistent achievements
<b>Key Elements</b>						
All Ages Mental Health						
Planning and Performance						
Leadership		 				
Engagement		 				



Reference Point May 2021



Reference Point November 2021



Target May 2022

Fel y gwelir o'r uchod, bu tystiolaeth o gynnydd rhwng Mai 2021 a Thachwedd 2021, gyda phob parth wedi'i nodi fel Lefel 1 ym mis Tachwedd. Gan edrych ymlaen at fis Mai 2022, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd pob parth wedi symud ymlaen i Lefel 2. O fewn y lefel hon, mae gwahaniaeth rhwng sgôr arferol, fel y dangosir ar gyfer arweinyddiaeth, a sgôr uchel, fel y dangosir ar gyfer y tair elfen arall. Mae hwn yn wahaniaeth hollbwysig ac mae'n adlewyrchu'r angen i wahaniaethu rhwng tystiolaeth o weithredu a thystiolaeth o effaith. Mae'r gallu i ddangos tystiolaeth o effaith y newidiadau a wneir yn hanfodol i'r daith wella ac yn rhagofyniad ar gyfer sgôr uchel.

Mae enghreifftiau o gynnydd a nodwyd rhwng Mai '21 a Thachwedd '21 wedi'u crynhoi isod:

#### Iechyd Meddwl Pob Oedran

- CAMHS - Sefydlwyd Gwasanaeth Ymarferydd Lles Teuluol, sy'n cefnogi darparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar yn seiliedig ar ofal sylfaenol i deuluoedd plant a phobl ifanc sy'n cyflwyno pryderon am les emosiynol a phroblemau ymddygiad.
- Polisi pontio yn ei le, sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn pan fo ar unigolyn ifanc o fewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Plant angen gofal parhaus gan Iechyd Meddwl Oedolion neu wasanaethau eraill e.e. anhwylderau bwyta neu gamddefnyddio sylweddau.
- Iechyd Meddwl Oedolion: Fframwaith Gwasanaeth ar gyfer Trin Pobl sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau yn ei le, sy'n dangos perthynas agosach rhwng Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Cynllunio Ardal a Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

#### Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad

- Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Gogledd Cymru mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor i oruchwylio datblygiad ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ysgolion Meddygol Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru.
- Agwedd at Gynllunio: Adroddiad ar y Gwersi a Ddysgwyd wedi'i ddatblygu, gan adlewyrchu ar broses gynllunio 2021/22, i lywio prosesau cynllunio'r dyfodol o lefel y Bwrdd a lefel strategaeth hyd at lefel y rhaglen a lefel weithredol. Argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer cynllunio'r blynyddoedd i ddod, sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd ag IMTP 2022/25, a gwella ymgysylltiad o fewn y sefydliad.

### Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Diwylliant

- Mae cam darganfod Mewn Undod Mae Nerth wedi'i gwblhau, gan ymgysylltu â dros 1900 o gydweithwyr ar draws y sefydliad. Mae adborth trwy ein Cymuned Mewn Undod Mae Nerth a chyd-ddylunio ein dyfodol trwy ein gwaith Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ar y gweill.

Egwyddorion dylunio i wella '*Sut rydym yn trefnu ein hunain*' wedi eu cytuno ac ymgysylltu wedi hen ddechrau ar strwythur/model gweithredu a ffafrir ar gyfer y sefydliad.

- Rhaglen Datblygu'r Bwrdd yn ei lle, wedi'i chynllunio i gyd-fynd ag allbynnau Darganfod o dan Mewn Undod Mae Nerth, gyda chefnogaeth Cronfa'r Brenin a'r Sefydliad Llywodraethu Da. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:
  - Myfyrio ar gyfraniad y Bwrdd i'r cyflwr presennol a'i ymrwymiad i'r dyfodol.
  - Ailgysylltu â diben y sefydliad a sut mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth genedlaethol ac anghenion lleol.
  - Cydnabod yr angen i symud ffocws y Bwrdd, er mwyn gosod y weledigaeth ar gyfer y sefydliad, a'r strategaethau sydd eu hangen ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon.
  - Nodi a chyflawni newidiadau i'w ffyrdd o weithio i greu'r amgylchedd ar gyfer gwella.
  - Cydnabod pwysigrwydd gwneud y mwyaf o arddulliau, profiad a gwybodaeth y Bwrdd yn hytrach na chanolbwyntio ar swyddogaeth yn unig.
- Dechreuwyd gweithredu'r fframwaith llywodraethu newydd ar draws y sefydliad ar 1 Medi 2021 gyda'r nod o:
  - Cydbwysu'r ffocws ar strategaeth, diwylliant ac atebolrwydd.



- Gwella'r llinell atebolrwydd strwythurol a'r llif sicrwydd rhwng y grwpiau sylfaenol, y tîm gweithredol, y pwyllgorau, a'r Bwrdd h.y. o'r 'llawr i'r Bwrdd'.
- Gwella ffocws ar agendâu pobl a thrawsnewid.

### Ymgysylltu

- Sefydlu grŵp Covid-19 Hir, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd a chleifion, fel dull cydweithredol o ddatblygu model aml-lwybr i gael mynediad at adferiad a thriniaeth ar gyfer Covid-19 Hir. Mae cleifion yn y grŵp yn cymryd rhan weithredol mewn grwpiau cymorth allanol Covid-19 Hir ac maent wedi bod yn flaenllaw wrth rannu gwybodaeth ar eu rhan.
- Sefydlwyd rhaglen Gwydnwch Rhieni a Chymorth i'r Naill a'r Llall (PRAMS). Gall teuluoedd gael cymorth; un-i-un; Therapi Siarad; grwpiau wyneb yn wyneb neu rithwir. Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar hyd y llwybr mamolaeth gan ddechrau gyda sesiynau '*Chi a'ch Bwmp*' a '*Chi a'ch Babi*' sy'n parhau ar gyfer teuluoedd â phlant hyd at 16 mlwydd oed. Yn seiliedig ar lwyddiant yn Sir y Fflint, rydym yn bwriadu ymestyn y rhaglen ar draws Gogledd Cymru.
- Ymgysylltiad Staff gydag Iechyd Meddwl Oedolion: Cynhaliwyd yr arolwg ar alwad ar draws yr Uwch Adran i gael adborth gan staff ynghylch y trefniadau Ar Alwad presennol yn yr Uwch Adran. Mae'r adborth a'r themâu wedi'u defnyddio i ddatblygu gwerthusiad opsiynau ar gyfer ymgynghoriad, wedi'i ategu gan drafodaethau yng nghyfarfod y Grŵp Partneriaeth ar y Cyd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyda chynrychiolwyr ochr y staff.

Mae gwaith gwella a datblygu bellach yn mynd rhagddo i alluogi tystiolaeth o gynnydd pellach mewn perthynas â'r hunanasesiad ffurfiol nesaf ym mis Mai '22. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gamau gweithredu allweddol y disgwylir iddynt effeithio ar y sgôr a aseswyd:

### Iechyd Meddwl Pob Oedran

- Iechyd Meddwl Oedolion; Parhau i wella ansawdd gwasanaethau yn unol â'r rhaglen Achredu Wardiau a chyflwyno mwy o Ddigwyddiadau Addysgu ar draws yr Uwch Adran.
- Defnyddio cyllid datblygu fel blaenoriaeth uchel yn unol â Chynllun y Bwrdd.
- CAHMS; Parhau i wella ansawdd gwasanaethau yn unol â'r ffrydiau gwaith Mynediad ac Argyfwng.
- Pontio; Rhaglen hyfforddi ar y cyd i symud ymlaen ymhellach.

## Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad

- Datblygu rhaglen rithwir Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth (VBHC) i barhau i nodi a hyrwyddo mentrau ag egwyddorion VBHC cryf, sy'n cyd-fynd â methodoleg Gofal Iechyd Darbodus.
- Datblygu'r IMTP a'r cynllun blynyddol cysylltiedig gyda blaenoriaethau clir a thargedau fforddiadwy y gellir eu cyflawni.
- Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol lefel uchel sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Byw'n Iach Aros yn Iach a'r IMTP diwygiedig.

## Arweinyddiaeth

- Parhau â rhaglen ddatblygu'r Bwrdd a gwreiddio'r Model Llywodraethu ar lefel Bwrdd, Pwyllgorau a Gweithredol.
- Rhoi model gweithredu a threfniadau llywodraethu cysylltiedig ar waith ar ffurf gysgodol o 01 Ebrill 2022
- Lansio rhaglen Hyd Eithaf ein Gallu, er mwyn ei gwneud yn haws cael y sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen arnom o'r tu mewn ac o'r tu allan i gefnogi ein gwaith

## Ymgysylltu

- Gweithio gyda phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gwmpasu a chyd-gynllunio fforwm ymgysylltu ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy ymagwedd gydgyssylltiedig tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Cynnal adolygiad o brosesau ac ymarferion ymgysylltu ar draws y Bwrdd Iechyd, i ganfod ystod a chwmpas gwaith ymgysylltu sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a'i effaith, cynlluniau yn y dyfodol a'r cymorth sydd ei angen i wasanaethau sicrhau bod gwaith ymgysylltu'n cael ei brif ffrydio i fusnes craidd.
- Defnyddio safle mewnwydd newydd BIPBC i ganiatáu rhannu pecynnau offer ymgysylltu a straeon cleifion yn eang yn ogystal ag ehangu'r ystod o gymorth i staff ar-lein, wedi'u hategu gan gynigion o gymorth pwrpasol, yn ôl yr angen.
- Adolygu sut rydym yn cyhoeddi ac yn rhannu newyddion ar-lein, gan gynnwys edrych yn ôl ar berfformiad ein sianeli a'n cynnwys cyfathrebu digidol i wella effaith yn y dyfodol

## **Camau gweithredu parhaus i sicrhau gwelliannau yn unol ag adroddiadau allanol diweddar**

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn a chyhoeddi tri adroddiad allanol sy'n tynnu sylw at ddiffygion o ran ansawdd y gofal a roddir i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod y dogfennau hyn ar gael i'r cyhoedd

cyn gynted â phosibl, gan adlewyrchu'r ffordd agored a thryloyw y bydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiadau hyn wedi'u hamlinellu isod.

### Llawfeddygaeth Fasgwlaidd

Ddiwedd mis Ionawr 2022, derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr ail o ddau adroddiad yn deillio o'r adolygiad trwy wahoddiad yr oedd wedi'i gomisiynu gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (RCS) mewn perthynas â gwasanaethau fasgwlaidd. Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad ar 3 Chwefror ac mae'n derbyn y canfyddiadau a amlygwyd yn yr adroddiad yn llwyr. Mae ansawdd profiad a chanlyniadau i gleifion a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn annerbyniol ac mae holl Aelodau'r Bwrdd yn ymrwymedig erbyn hyn i sicrhau bod y gwasanaeth yn datblygu, ar garlam, yn y ffordd a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mae'r timau Gweithredol a Chlinigol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn fwyaf diweddar ond hefyd ar sicrhau diogelwch a chynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth, wedi'i ategu yn y tymor byr gan gydberthynas waith agosach gydag Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Lerpwl a thrwy rai newidiadau i arweinyddiaeth glinigol leol y gwasanaeth. Mae Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Lerpwl wedi ymrwmo mewn egwyddor i weithio i gefnogi cyfarfodydd ein Tîm Aml-ddisgyblaethol (MDT) a chaiff y trefniadau hyn eu ffurfioli'n fuan iawn trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng ein sefydliadau.

Mae'r cynllun gweithredu sydd wedi cael ei lunio mewn ymateb i Ran 2 o adolygiad RCS, gan adeiladu ar y Cynllun Gwella Fasgwlaidd presennol, yn glir am yr angen i geisio sicrwydd ar hyd a lled y methiannau, yn enwedig mewn perthynas â chadw nodiadau a chydysyniad, ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae'r cynllun yn dangos sut y caiff sicrwydd cadarn o ran effeithiolrwydd a chynaliadwyedd y camau gweithredu eu rheoli a'u hadrodd wrth y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Yn ogystal, mae'r cynlluniau'n destun proses sicrwydd ansawdd annibynnol yn y sefydliad ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cysondeb gyda'n methodoleg gwella ansawdd ehangach a meysydd Ymyrraeth wedi'i Thargedu (TI). Mae sicrhau ymagwedd gyson tuag at drawsnewid a gwella ansawdd yn allweddol i sicrhau bod modd gweithredu'r gwaith hanfodol hwn ac effeithiau ehangach mewn modd cynaliadwy ar draws y Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn ffurfio Panel Ansawdd Fasgwlaidd i adolygu'r 44 o achoson yn adolygiad y Coleg Brenhinol i sicrhau bod canlyniadau priodol i gleifion yn cael eu cyflawni a bod cyfathrebu clir ac agored gyda chleifion a'u teuluoedd. Mae Cylch Gorchwyl y panel hwn wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod adolygiadau thematig ehangach yn cael eu cynnal lle bo angen ac mae Cadeirydd annibynnol ar gyfer y panel hwn wedi'i benodi.

Caiff y cynlluniau gweithredu eu monitro trwy'r Grŵp Llywio Fasgwlaidd (VSG) misol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. Mae aelodaeth â VSG yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymuned a chynrychiolaeth gan gleifion.

Mae VSG yn adrodd wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion ac wrth bob cyfarfod o'r Bwrdd Cyhoeddus.

### Iechyd Meddwl

Ar 25 Chwefror, cyhoeddwyd dau adroddiad allanol, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd, yn ymwneud â marwolaethau a ddigwyddodd mewn unedau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru. Bu farw Claf D yn Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd ym mis Ebrill 2021, tra bu i Glaf A farw yn Uned Ddiogelwch Canolig Tŷ Llywelyn, Llanfairfechan ym mis Hydref 2021. Mae'r ddau achos hyn yn hynod drasig ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymddiheuro i deuluoedd y ddau glaf am y methiannau o ran eu gofal.

Derbyniwyd argymhellion yr adolygiadau hyn ac mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o fynd i'r afael â'r sefyllfa'n drylwyr er mwyn dysgu gwersi o'r digwyddiadau hyn. Mae pob un o'r argymhellion ar y trywydd cywir i gael eu rhoi ar waith o fewn terfynau amser priodol.

Ym mis Rhagfyr 2021, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gyhoeddi ei hadroddiad yn dilyn ymweliadau nas cyhoeddwyd ymlaen llaw ag Uned Hergest ym Mangor. Gwnaeth yr adroddiad hwn dynnu sylw at rai meysydd lle bo angen gweithredu ar unwaith a gwnaeth gyfres o argymhellion yn ymwneud â meysydd i'w gwella. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys cynllun a ffabrig yr adeilad, staff a'r arfer o nyrso carfanau cymysg o oedolion a phobl hŷn ar yr un ward. Cafodd cynllun gweithredu manwl ei ddatblygu a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ac mae hwn yn mynd rhagddo.

Mae'r themâu yn yr adroddiadau hyn yn cydfynd ag adroddiadau blaenorol a materion a ddaeth i'r amlwg ar ôl digwyddiadau eraill. Yng ngoleuni hyn, penderfynodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fod angen un rhaglen weithredu i yrru gwelliannau yn eu blaen ar draws gwasanaethau iechyd meddwl. Cynhaliwyd uwchgynhadledd ym mis Rhagfyr 2021, a oedd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch dîm arwain yr Uwch Adran.

Roedd yr uwchgynhadledd yn gyfle i gael trafodaeth thematig am adroddiadau a digwyddiadau blaenorol, gan arwain at ganfod rhaglen wella sydd â'r bwriad o arwain at newid. Mae'r meysydd ar gyfer gwella a ganfuwyd fel a ganlyn -

- Rhoi rhaglen achredu wardiau ar waith yn barhaus ar gyfer yr holl wardiau cleifion mewnol
- Gweithredu i roi terfyn ar yr arfer o gael carfanau cymysg o oedolion a phobl hŷn yn Uned Hergest
- Gweithredu i ymgorffori methodolegau gwella mewn timau ar draws yr Uwch Adran, trwy hyfforddiant a chymorth i staff
- Mabwysiadu dysgu yn weithredol ar draws yr Uwch Adran, gyda thystiolaeth o'i effaith

- Datblygu asesiadau hyfforddiant a galluoedd mewn meysydd fel atal hunanladdiad ac asesiadau risg; wedi'u hategu gan archwiliadau o weithredu'n effeithiol
- Rhannu dysgu o ddigwyddiadau ac adolygiadau, gan archwilio effaith
- Ymyriadau diwylliannol i gefnogi staff, gan adeiladu ar raglen Mewn Undod Mae Nerth y Bwrdd Iechyd
- Gwell llywodraethu yn yr Uwch Adran a chysylltiadau â systemau'r Bwrdd cyfan

Caiff cynnydd yn erbyn yr ymyriadau hyn ei fonitro bob mis trwy gyfarfodydd rheolaidd o'r uwchgynhadledd, a chaiff arweinyddiaeth ar lefel y Bwrdd ei chynnal er mwyn cael sicrwydd o effeithiau positif ar ddarpariaeth gwasanaeth. Caiff y camau gweithredu hyn eu hadlewyrchu yn nhrefniadau monitro'r Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn mabwysiadu ymagwedd gyson tuag at ymateb i bob un o'r adolygiadau hyn ar wahân ac mae gwaith yn parhau i ddatblygu hyn yn broses safonol i fynd i'r afael â meysydd lle bo pryder ynghylch ansawdd ar draws yr holl wasanaethau. Bydd hyn yn ymestyn o ganfod sbardunau i dynnu sylw at bryderon yn gynnar, asesu goblygiadau pryderon a'r math o ymateb sydd ei angen (gan gynnwys adolygiadau), mabwysiadu proses wella safonedig i yrru newid yn ei flaen a'i ddangos, cyfathrebu â staff a chymunedau, adrodd ar gynnydd a'i fonitro. Caiff arfer gorau sydd wedi'i gydnabod yn rhyngwladol, yn deillio o ddysgu gan y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) ei ddefnyddio i ddylunio'r broses safonol hon, a bydd hyfforddiant a datblygiad ar gael i glinigwyr a staff eraill sicrhau bod modd ei fabwysiadu'n gyson ac yn llwyddiannus.